Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gymunedol Abergynolwyn, Nos Lun 13eg Tachwedd 2017 am 7.00 o'r gloch

Presennol: Is Gadeirydd Elwyn Evans, H.E. Thompson, Gareth Evans, Steve Lewis, Wendy Whitby,
Cyng Gwynedd Beth Lawton a'r clerc Eileen Jones. Un o'r Cyhoedd.
Ymddiheuriad: Gadeirydd Eleri Puw, (cyfarfod arall) Robert Jones,(Cyfarfod arall)
Datgan Diddordeb: Cyng. Elwyn Evans a Wendy Whitby parthed rhif 3.
Croeshawyd pawb gan yr Is Cadeirydd Elwyn Evans
Derbyniwyd cofnodion Hydref ond am un camgymeriad, nid yw Cyng Gwynedd Beth Lawton yn Cadeirydd ar y Pwyllgor Safonau,Cyngor Gwynedd, aelod o'r pwyllgor yw. Llofnodwyd gan y Cadeirydd.
Cae Chwarae: Pasiwyd i dalu .B Shellis am ei waith ar y sleid. Pawb yn hapus efo'r gwaith. Gwariant yma i ddod allan o arian wrth gefn , am mai gwaith brys oedd. Derbyniwyd anfoneb gan Genesis am taliad ymlaen llaw am yr arwydd i'r Cae. Pawb yn hapus i dalu. Côst yma i ddod o arian wrth gefn gan ein bod wedi cael y ddau sedd yn anrheg.
Mynwentydd: (A). Cafwyd ymholiad gan Rheolwr Amlosgfa Cyngor Gwynedd yn holi os oeddym a mynwentydd. Trafodwyd tâl i gladdedigaethau dan deunaw oed. (B) Derbyniwyd llythyr Adran Bro Ystuammer drwy law y Parchedig Janet Fletcher, yn holi am ganiatad i roi arwyddion tu allan pob ochr i'r "Lynchgate", hyn i dywys pobl ddiarth i ymweld a Eglwys St. Michael . Trafodwyd hyn a phasiwyd mewn egwyddor ond iddynt gael caniatad o Cadw ac ymgynhori ar Cyngor maint, cynllun a lleoliad yr arwydd ymlaen llaw, hefyd fod yn gyfrifol am unrhyw difrod i;r wal. (C) Cyfraniad tuag at y cynllun yw drafod ymhellach ymlaen. (D) Pasiwyd i ddanfon llythyr o gefnogaeth iddynt i wneud apêl i'r "Bishop of Bangor and Diocesan Council"i gadw'r Eglwys yn "small and beautiful"
Llwybrau: Cafwyd adroddiad gan Cyng Gareth Evans a Emrys Thompson ynglyn a chyfarfod a fu ger Llwybyr wrth MaesyMeillion, ar hyn o bryd ym mherchynogaith Cartrefi Cymunedol Gwynedd. Mae CCG eisiau gwared ohono. Hyd y llwybyr yw o Siop Cwrt hyd at Cae Mr D A Jones. Yn hanesyddol mae'n llwybyr pysgotwyr a postmon.
Trafodwyd ac yr oedd y Cynghorwyr yn gytun i dderbyn y llwybyr, yw gadw i'r dyfodol ond yn gyntaf cael telerau gan CCG. Cynnig gan Cyng W Whitby ac eilydd Cyng E Thompson. Cyngor Gwynedd yn gweithio ar rhif 13, gwaith ar yr wyneb a gât.
5.Adroddiad Cynghorydd Gwynedd: Adroddwyd bod sylw i ddod i chwyn ochr palmant. Cynnig gan Adrian Williams Adran Briffyrdd, ysgubo a chwyn laddwr (roundup). Gofynodd am farn cyffredinol aelodau y Cyngor Cymuned ar godi Section 157 ar dai gwag. Hyn yw helpu pe bai achos yn dod ger fy mron fel Cynghorwr Sir. Holwyd i'r Cyng Lawton ddilyn fyny ein bod yn mynd i gael difa oddifri ar y llygod mawr trwy'r pentref fel a addawyd gan Gyngor Gwynedd.
6.Un Llais Cymru: Cafwyd adroddiad trwyadl gan y Cyng Elwyn Evans. O'r cyfarfod ardal a Cynhadledd Blynyddol. Neges yn sefyll allan o Adran Iechyd – ymgais i ni edrych ar ol ein iechyd gan fod diffyg cyllid a meddygon. Nid oedd Un Llais wedi derbyn ateb i lythyr yn dangos pryder gor yrru yn Abergynolwyn . Nodwyd y bydd costau ymaelodi yn codi 5%. Ein diolch I'r Cyng Evans.
7.Biniau Halen: Bu y Clerc o amgylch yn checio y biniau halen sydd yn perthyn i'r Cyngor. Addawodd Sion Wilkes o'r Adran Priffyrdd y byddem yn cael bin newydd ger Ty Mawr ac hefyd ei ail leoli.
8. Ty Bont Abergynolwyn: Derbyniwyd cwyn bod coeden ar dir Mr Mitchel yn rhwystro cerbyd yn dod o gyfeiriad Tywyn i weld yn glir. Pasiwyd i ddanfon llythyr iddo yw thorri lawr,
9. Bronygader: Derbynwyd cwyn ynglyn a goleuadau newydd yn Bronygader, nid ydynt yn dangos y lle fel yr hen rhai. Derbyniwyd deiseb, pasiwyd i ddanfon ymlaen i Gyngor Gwynedd.
10. Cyngor Gwynedd: Nodwyd bod y wal wedi ei ail adeiladu, ger bont Cedris.
11. Archwiliad Allanol: Dim Pellach
12.Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd costau yr Etholiad a phasiwyd yw talu.
13. Comisiwn Ffiniau i Gymru: Cyhoeddwyd Adroddiad Cynigion Diwygedig y Comisiwn ar 17/10/17, gweler ar lein www.comffin-cymru.gov.uk
14. Coed Afalau: Mae Rheilffordd Talyllyn yn fodlon plannu y coed.
15.Nodwyd nad oedd y manau canlynol wedi cael sylw llawn – Yn ymyl Ty Pengarreg, Ty'n Ffordd – Llanllwyda – Tynybryn – Pontygarth.

16.Taliadau	B R Shellis	sleid	£516.00	siec 912
	Genesis	arwydd	67.50	913
	Cyngor Gwynedd	detholiad	131.00	914

Mari Jones:
1. Casglwyd £3.60 o'r blwch. Diolch i'r Cyng Gareth Evans.

Cyfarfod Nesaf: Nos Lun 11eg Rhagfyr 2017 am 7 o'r gloch.